Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Dr Michael O'Reilly

## Dyddiad y gweithgarwch: 28 Ionawr 2021

Dyddiad cyhoeddi: 02 Mawrth 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80082-992-3

(h) Hawlfraint y Goron 2021

# Cofnod o'r Canfyddiadau

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Dr Michael O'Reilly (y clinig) fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r clinig yn cynnig gwasanaethau meddyg teulu preifat gan gynnwys archwiliadau iechyd diwydiannol ac at ddibenion yswiriant, ac asesiadau ar gyfer achosion yswiriant un prynhawn bob wythnos hyd nes y bydd y galw yn cynyddu. Mae Dr Michael O'Reilly yn unig ymarferydd ac nid oedd yn cyflogi unrhyw aelodau o staff ar adeg y gwiriad ansawdd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a rheoliadau perthnasol eraill. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy’n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â'r unig ymarferydd (rheolwr cofrestredig) ar 28 Ionawr 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei leoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod pob claf (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a phrosesau i alluogi cleifion i gael apwyntiadau.
- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut mae'r clinig a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Gwnaethom edrych ar asesiadau risg diweddar a gofyn i'r lleoliad am y newidiadau a wnaed mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn cynnal diogelwch ac urddas cleifion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym, fis ar ôl iddo gofrestru ag AGIC ac agor y clinig, fod cyfyngiadau symud wedi'u gosod ar y wlad er mwyn atal lledaeniad COVID-19. Roedd yr adeilad lle roedd y clinig wedi'i leoli wedi cau am gyfnod o chwe mis er mwyn gwneud addasiadau i wneud yr amgylchedd yn fwy diogel i'r cleifion a'r staff. Cawsom wybod bod gwasanaethau wedi ailddechrau ym mis Medi 2020 ar ôl cwblhau'r gwaith hwn. Dywedodd y rheolwr cofrestredig nad oedd y cyfnod pan oedd y clinig ar gau wedi cael llawer o effaith ar gleifion, am fod y clinig ond wedi bod ar agor am fis cyn iddo gau.

Dywedwyd wrthym, yn ogystal â'r prif addasiadau a ddisgrifir uchod er mwyn sicrhau pellter cymdeithasol a threfniadau glanhau digonol, fod cynllun y dderbynfa flaen wedi cael ei newid tua diwedd 2020. Cafodd desg y dderbynfa ei symud fel y gallai'r derbynnydd weld y drws ffrynt ac felly reoli llif y cleifion wrth iddynt gyrraedd a gadael yr adeilad. Gofynnwyd i gleifion a oedd yn cyrraedd ar gyfer apwyntiadau aros y tu allan neu yn eu ceir nes ei bod yn ddiogel iddynt fynd i mewn i'r adeilad. Gosodwyd cadeiriau plastig er mwyn gallu ei glanhau yn hawdd a gosodwyd sgrin wrth ddesg y dderbynfa.

Esboniodd y rheolwr cofrestredig y ffordd yr oedd y cleifion yn cael eu blaenoriaethu, gan ddibynnu ar ddifrifoldeb eu cyflwr. Cynghorwyd cleifion â chyflyrau yr oedd angen sylw meddygol arnynt ar unwaith i fynd i weld eu meddyg teulu eu hunain neu fynd i'r uned damweiniau ac achosion brys agosaf. Roedd cleifion yr oedd angen asesiadau diwydiannol neu asesiadau at ddibenion yswiriant arnynt yn cael eu gweld yn ystod yr apwyntiad nesaf oedd ar gael, oni bai bod angen yr asesiad ar frys. Os felly, gellid gwneud trefniadau i'w gweld cyn gynted â phosibl.

Dywedwyd wrthym y gellir ond manteisio ar y gwasanaeth drwy drefnu apwyntiad dros y ffôn neu drwy e-bost.  Roedd cleifion hefyd yn gallu cysylltu â'r clinig i ofyn am wybodaeth am argaeledd apwyntiadau. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd yn cynnal ymgyngoriadau rhithiwr. Fodd bynnag, dywedodd wrthym y gellid trefnu ymgyngoriadau dros y ffôn os oedd yn gwbl angenrheidiol. Byddai cwestiynau diogelwch penodol yn cael eu gofyn yn yr achosion hyn er mwyn cadarnhau pwy oedd y claf.

Dywedwyd wrthym fod yr amserlenni glanhau wedi cael eu diweddaru i gynnwys pob eitem yr oedd y cleifion yn dod i gysylltiad â hi, megis desgiau, cadeiriau, soffas, toiledau a dolenni drysau. Roedd eitemau untro, gan gynnwys cyffiau monitro pwysedd gwaed, stethosgopau a

thermomedrau, wedi'u nodi'n unigol ar yr amserlenni cyn COVID-19. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym hefyd ei fod wedi prynu thermomedr di-gyffwrdd is-goch[1] er mwyn cofnodi tymheredd cleifion. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod yr ystafell ymgynghori yn cael ei glanhau'n drylwyr ddwywaith y dydd. Er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r canllawiau diweddaraf, mae'r clinig yn cael diweddariadau wythnosol gan Lywodraeth Cymru dros e-bost ac yn cadw llygad ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Gwelsom bolisïau rheoli heintiau, rhestrau glanhau a hylendid a mynediad at hyfforddiant.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cawsom gopi o bolisi COVID-19 y clinig, a oedd yn nodi gweithdrefnau i'r ymarferydd a'r cleifion eu dilyn er mwyn lleihau lledaeniad y feirws. Dywedwyd wrthym fod y clinig yn cysylltu â'r cleifion dros y ffôn cyn iddynt fynd i'w hapwyntiadau i ofyn cyfres o gwestiynau iddynt er mwyn cadarnhau a oedd ganddynt symptomau COVID-19. Roedd y cyfarwyddiadau hyn wedi'u cynnwys ar wefan y practis hefyd. Roedd yr atebion a roddwyd gan y cleifion yn cael eu dogfennu a'u cadw yn nodiadau'r cleifion. Gofynnwyd i gleifion â symptomau'r feirws beidio â mynd i'r clinig ac roedd yr apwyntiadau'n cael eu haildrefnu.

Dywedodd y darparwr wrthym mai dim ond cleifion yr aseswyd nad oedd ganddynt symptomau COVID-19 oedd yn cael eu gweld wyneb yn wyneb. Dywedwyd wrthym ei bod yn ofynnol i gleifion a welwyd wyneb yn wyneb wisgo masgiau wyneb a dilyn canllawiau hylendid dwylo a chadw pellter cymdeithasol. Ar ôl yr ymgyngoriadau, roedd pob ardal yr oedd y claf wedi bod ynddi yn cael ei glanhau'n drylwyr.

Ni wnaeth y darparwr nodi unrhyw anawsterau o ran cael gafael ar gyfarpar diogelu personol (PPE) ac roedd y clinig yn cadw stoc gwerth mis rhag ofn y byddai cyflenwadau'n brin. Roedd y stoc yn cael ei gwirio bob penwythnos ac roedd cofnod yn cael ei gadw. Nododd yr ymarferydd ei fod yn gymwys o ran gwisgo a thynnu PPE, o ganlyniad i hyfforddiant a gwblhawyd mewn rolau llawfeddygol blaenorol.

Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig wedi trefnu a chwblhau hyfforddiant ar-lein yn ymwneud â COVID-19 yn benodol. Cafodd newidiadau i weithdrefnau atal a rheoli heintiau eu cyfleu i'r cleifion drwy ddiweddariadau ar wefan y clinig a hefyd ar lafar dros y ffôn wrth drefnu apwyntiadau.

[1]Thermomedr sy'n cofnodi tymheredd o bell yw thermomedr isgoch. Cânt eu galw'n thermomedrau laser neu thermomedrau digyswllt weithiau.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw’r trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas i gyflawni eu rolau a’u bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom edrych ar asesiadau risg diweddar a gofyn i’r lleoliad am y newidiadau a wnaed mewn ymateb i COVID-19 er mwyn cynnal arferion diogel.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd yn dangos bod arferion gweithio yn cael eu dogfennu ym mholisi COVID-19, a dywedwyd wrthym fod hwn yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd. Cawsom hefyd dystiolaeth o nifer o bolisïau eraill a oedd yn gyfredol. Roedd y rhain yn cynnwys trefniadau ar gyfer gwaredu offer miniog, anafiadau a achosir gan nodwyddau a rheoli meddyginiaethau. Gwelsom fod y datganiad o ddiben [2] a'r canllawiau i gleifion hefyd yn gyfredol.

Disgrifiwyd y broses i'w dilyn er mwyn rhoi gwybod am ddigwyddiadau. Byddai'r digwyddiad yn cael ei gofnodi mewn cofnodlyfr digwyddiadau a rhoddid gwybod amdano i'r gwasanaeth perthnasol, megis AGIC, y bwrdd iechyd neu'r heddlu. Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau ar adeg y gwiriad ansawdd.

Dywedwyd wrthym am y trefniadau ynglŷn â'r cyfarpar brys. Cafodd cyffuriau brys eu storio'n ddiogel mewn man arall ac aethpwyd â nhw i'r clinig pan oedd ymgyngoriadau'n cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cael eu gwirio bob wythnos ac yn cael eu dogfennu'n briodol. Nid oedd diffibriliwr yn y clinig a disgrifiwyd y weithdrefn a fyddai'n cael ei dilyn pe bai rhywun yn cael trawiad ar y galon neu pe bai argyfwng. Roedd hyn yn cynnwys ffonio'r gwasanaethau brys, thoi triniaeth dadebru cardio-anadlol[3] (CPR), os oedd angen, ac anfon rhywun i fynd i nôl y diffibriliwr cymunedol, a oedd o fewn 100 metr i'r clinig.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

[2] https://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/734/schedule/1/made/welsh

[3] Triniaeth feddygol sy'n cynnwys cywasgu'r frest nifer o weithiau a defnyddio peiriant anadlu artiffisial yw CPR. Rhoddir y driniaeth er mwyn cynnal cylchrediad y gwaed a llif ocsigen pan fydd person wedi dioddef trawiad ar y galon.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Dr Michael O’Reilly

Gwasanaeth: Clinig Annibynnol

Dyddiad y gweithgarwch:28 Ionawr 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Ni nodwyd unrhyw welliannau** | | | | |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy’n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw:

Dyddiad: